

Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer entrepreneuriaid sydd angen rheoli llif arian yn eu busnes. Mae gallu rhagweld a rheoli arian sy'n mynd i mewn ac allan ar wahanol adegau, a'i effaith ar eich gweithgareddau, yn hanfodol i asesu sefyllfa ariannol eich busnes. Gall wneud y gwahaniaeth rhwng busnes sy'n goroesi ac un sy'n methu. Mae rheoli llif arian yn cynnwys gosod targedau llif arian yn unol â chynlluniau ariannol eich busnes, cynhyrchu rhagolygon llif arian rheolaidd, nodi unrhyw fylchau rhwng incwm a gwariant a chymryd camau i reoli unrhyw ddiffyg sy'n debygol.

Gallech wneud hyn os ydych yn:

1.
hunangyflogedig;
2.
sefydlu busnes neu fenter gymdeithasol;
3.
adolygu cynllun ariannol a hyfywedd eich busnes neu fenter gymdeithasol;
4.
ceisio gwneud eich busnes neu fenter gymdeithasol yn fwy proffidiol.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cyfrifo pa gostau a biliau sy'n gysylltiedig â'ch busnes
2. gosod targedau llif arian yn erbyn eich cynlluniau ariannol ar gyfer eich busnes
3. penderfynu pryd, yn ystod pob cyfnod cyfrifo, mae angen talu gwahanol fathau o gostau
4. nodi pryd y bydd arian parod yn llifo i mewn ac allan o'ch busnes yn ystod pob cyfnod cyfrifo
5. monitro mewnlifoedd arian yn erbyn all-lifoedd
6. rhagweld neu nodi unrhyw ddiffygion ariannol
7. paratoi'r camau y mae angen eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion ariannol
8. nodi o ble mae arian yn dod a monitro sut mae'n cael ei ddefnyddio yn eich busnes
9. cyfrifo faint o arian sydd ar gael ar unrhyw un adeg
10. mynd ar ôl unrhyw ddyledion eithriadol, lle nodir y rhain
11. rheoli eich archebion stoc a allai effeithio ar eich all-lifoedd arian
12. gosodwch eich telerau anfonebu a thalu i wneud yn siŵr bod eich cwsmeriaid yn eich talu'n brydlon
13. edrych ar yr effaith y gallai amseru taliadau mewnol ac allanol ei chael ar lif arian
14. rheoli ffynonellau a defnyddio arian parod lle bo hynny'n briodol
15. defnyddio dulliau gwerthu cyfrifon ac anfonebau sydd heb eu talu am bris gostyngol, lle bo modd
16. gwella eich llif arian drwy fenthyg arian neu fuddsoddi rhagor o arian yn y busnes
17. cynyddu eich gwerthiant a'ch proffidioldeb i wella llif arian, lle bo modd
18. cynhyrchu rhagolygon llif arian ar amseroedd penodol sy'n addas i'ch busnes
19. dod o hyd i wybodaeth a chyngor ariannol pan fo angen

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Llif arian

1. y costau a'r biliau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau eich busnes
2. y targedau llif arian a sut mae'r rhain yn cysylltu â chynlluniau ariannol eich busnes
3. y gofynion ar gyfer rhagweld llif arian
4. sut i baratoi'r datganiadau llif arian a rhagweld cyfraddau llif arian a allai fod yn uchel ac yn isel
5. sut i fonitro llif arian trwy gadw cofnodion dydd i ddydd a chyfriflenni banc
6. sut i ddewis yr amserlenni ar gyfer rhagolygon ariannol
7. y dulliau i'w defnyddio i ragweld incwm busnes a gwariant
8. pa mor aml y mae arian yn mynd allan o'r busnes, a faint
9. sut mae amseriad derbynebaw arian a gwariant yn effeithio ar lif arian
10. sut i gael gwybod pa arian fydd yn cael ei wario wrth ddechrau a rhedeg busnes
11. sut i reoli ffynonellau a defnyddiau arian parod, megis symud arian parod rhwng cyfrifon, prynu a gwerthu stoc, cael cyn lleied â phosibl o gredydwy'r a dyledwy'r gwael, rheoli taliadau i gredydwy'r, talu treth, prynu a gwerthu asedau, a pholisïau gwerthu a phrisio tymor byr
12. y ffactorau a allai effeithio ar y llif arian, megis peidio â chadw at amseroedd cyflenwi y cytunwyd arnynt, peidio â dilyn deddfau neu reoliadau, telerau talu, cosbau am beidio â chwblhau neu dorri contract, a iawndal am beidio â derbyn nwyddau
13. y camau i'w cymryd lle nodir diffygion rhwng mewnlifoedd ac all-lifoedd arian
14. y dulliau gwella eich llif arian, megis defnyddio dulliau gwerthu cyfrifon ac anfonebau am bris gostyngol, cynyddu gwerthiant a phroffidioldeb, archwilio

marchnadoedd newydd, lleihau'r archebion stoc

Gwybodaeth a chyngor

15. ffynonellau gwybodaeth a chyngor ariannol

| | |
|----------------------------------|--|
| Datblygwyd gan | Skills CFA |
| Dyddiad cymeradwyo | 14 Ion 2022 |
| Dyddiad Adolygu Dangosol | 01 Maw 2027 |
| Dilysrwydd | Ar hyn o bryd |
| Statws | Gwreiddiol |
| Sefydliad cychwynnol | Instructus |
| RCU gwreiddiol | CFAMN4 |
| Galwedigaethau perthnasol | Rheolwyr ac Uwch Swyddogion, Busnes, Gweinyddiaeth a'r Gyfraith |
| Cyfres/Set | Menter Busnes |
| Geiriau Allweddol | llwyddiant, busnes, syniad, cymdeithasol, menter, cwsmeriaid, cynhyrchion, gwasanaeth, cefnogaeth, creadigol, syniad, sgiliau, anghenion, cyflenwyr, arian parod, llif, deddfwriaeth, marchnata, marchnad, tueddiadau, cystadleuwyr, iechyd a diogelwch, TAW |
